

Hawdd ei ddeall: Ein prosiect i edrych ar wasanaethau gofal ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu

Ni yw Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (hefyd yn cael ei adnabod fel AGGCC).

Rydym yn gwirio gwasanaethau gofal ledled Cymru i sicrhau eu bod yn ddiogel ar gyfer y bobl sy'n eu defnyddio.

Mae llawer o wasanaethau gofal yng Nghymru'n cael eu defnyddio gan bobl ag anableddau dysgu.

Rydyn ni'n gwirio i weld a yw'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal da ac a yw'r gofal hwn yr un fath ledled Cymru.

Byddwn yn edrych ar ba mor dda yw'r gwasanaethau hyn, pa mor dda maent yn gweithio, ac a yw pobl sy'n cael gofal a chymorth yn ddiogel.

Byddwn hefyd yn edrych ar yr adrannau mewn cynghorau lleol sy'n cael eu hadnabod fel gwasanaethau cymdeithasol.

Byddwn yn edrych i weld a yw pobl yn elwa ar y gofal maent yn ei dderbyn, ac a oes unrhyw broblemau a allai rwystro pobl rhag cael gofal da.

Byddwn yn gofyn:

- A yw cynghorau'n deall faint o help sydd ei angen yn eu hardal i bobl ag anableddau dysgu?
- Pa mor dda mae pobl yn gwneud yr hyn maent yn addo ei wneud i bobl ag anableddau dysgu?
- Pa mor dda yw'r wybodaeth, cymorth a chyngor a roddir i bobl?
- Ydy cynghorau Cymru'n dangos parch tuag at bobl ag anableddau dysgu?

Byddwn yn cynnal arolwg ac yn siarad ag adrannau gwasanaethau cymdeithasol pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

Byddwn yn gweithio â grŵp o'r enw Fforwm Rhieni i drefnu cyfarfodydd gyda rhieni a gofalwyr ledled Cymru.

Byddwn yn gweithio gyda grŵp o'r enw Pobl yn Gyntaf Cymru i'n helpu ni i siarad â llawer o bobl ag anableddau dysgu.

Rydym eisiau siarad â phobl sy'n rhoi llety i bobl ag anableddau dysgu.

Byddwn yn edrych yn fwy manwl ar chwe chyngor yng Nghymru rhwng mis Tachwedd 2015 a mis Ionawr 2016.

Mae grŵp arall o'r enw Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn ein helpu ni gyda'r prosiect hwn.

Unwaith y bydd ein holl waith wedi gorffen, byddwn yn cyhoeddi adroddiadau ar gyfer pob cyngor yng Nghymru.

Bydd yr adroddiadau'n dweud sut y gallant wella.

Ar ddiwedd mis Mawrth 2016, byddwn yn cynhyrchu un adroddiad ar gyfer Cymru gyfan a fydd yn esbonio'r hyn rydym wedi ei ganfod a beth mae hyn yn ei olygu i bobl yng Nghymru.